



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 20 Medi 2018 am 2.00 pm ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd R Bevan    Y Cyngorydd A Crimmings  
Y Cyngorydd G Hopkins    Y Cyngorydd M Norris  
Y Cyngorydd J Rosser    Y Cyngorydd R Lewis  
Y Cyngorydd C Leyshon

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Ms W Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned  
Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad  
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Garrif

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd G Davies  
Y Cyngorydd R Turner

**28      DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**29      YMDDIHEURIAD**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M Webber.

## 30 COFNODION

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 20.09.18, yn rhai cywir.

## 31 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – CYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM CYNON

Cyfeiriodd Pennaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif at yr adroddiad o'u blaen a oedd yn cynnig gwella ac ehangu'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael yn ardal Cwm Cynon, Rhondda Cynon Taf trwy fwrw ymlaen â'r cynigion canlynol. Siaradodd y Swyddog am y cynigion yma mewn manylder:-

- Gwella'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael yn Hirwaun trwy fuddsoddi £10.4miliwn ar gyfer ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun;
- Gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn ardal Cwm Cynon Uchaf trwy newid Ysgol Gynradd Penderyn o fod yn ysgol ddwyieithog i fod yn Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg;
- Datblygu achosion busnes ariannol Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif gyda Llywodraeth Cymru er mwyn:
- Buddsoddi £3.3miliwn i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr er mwyn ateb y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- Buddsoddi £10.2miliwn i gynyddu capasiti a gwella'r cyfleusterau addysgol yn Ysgol Gyfun Rhydywaun i ateb y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.

Rhoddyd gwybod i Aelodau am y sail resymegol ar gyfer y penderfyniad yma a'r broses ymgynghori statudol angenrheidiol byddai angen ei chynnal mewn perthynas â'r cynigion.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn modd cadarnhaol ynglŷn â'r cynigion gan gynnig sylwadau ynglŷn â chyflwr gwael rhannau o'r ysgol ar hyn o bryd, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd yr Aelod hefyd wedi cynnig sylwadau ar y dull synhwyrol a fydd yn cael ei fabwysiadu wrth symud ymlaen mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg. Trafododd y Cabinet y newidiadau posibl sydd eu hangen mewn perthynas â dalgylchoedd. Siaradodd y Cabinet mewn modd cadarnhaol ynglŷn â'r ddarpariaeth trafndiaeth am ddim sy'n cael ei chynnig gan y Gwasanaeth Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd y cynigion a'r buddsoddiad mewn ysgolion, ond tynnodd sylw at bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o gynydd mewn lefelau traffig ger Ysgol Gynradd

Gymraeg Aberdâr. Gofynnodd fod Aelodau lleol yn derbyn y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r datblygiadau.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor mewn modd cadarnhaol ynglŷn â'r buddsoddiad ac aeth ati i ailadrodd sylwadau Aelodau o'r Cabinet ynglŷn â'r ddarpariaeth Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, er mwyn codi unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Cychwyn ymgynghoriad â'r cyhoedd mewn perthynas â'r cynnig i fuddsoddi £10.4miliwn ar gyfer ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun a newid Ysgol Gynradd Penderyn o fod yn ysgol ddwyieithog i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Fydd dim rhagor o ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn cael eu derbyn i'r Ysgol ar ôl mis Awst 2019, ac Ysgol Gynradd Hirwaun fydd yr ysgol ddalgyrch ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg.
2. Datblygu a chyflwyno achos busnes ariannol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae hyn er mwyn buddsoddi £3.3miliwn i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr er mwyn cwrdd â'r galw am leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.
3. Datblygu a chyflwyno achos busnes ariannol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae hyn er mwyn buddsoddi £10.2miliwn i gynyddu capasiti Ysgol Gyfun Rhydywaun a gwella cyfleusterau addysgol yno er mwyn cwrdd â'r galw am leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.
4. Bod yr holl gynigion yma'n cael eu gweithredu erbyn 2022.

**(Nodwch:** Roedd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R Turner wedi datgan buddiant ynglŷn â'r eitem yma, fel sydd wedi'i nodi yng Nghofnod 29. Arhosodd yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod a phan gynhaliwyd y bleidlais)

## **32 CYNIGION I SEFYDLU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD AR GYFER DATBLYGIAD TAI LLANILID**

Cyflwynodd Pennaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ei hadroddiad i Aelodau. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau er mwyn cychwyn y broses ymgynghori statudol angenrheidiol ar gyfer y cynnig i sefydlu darpariaeth addysg gynradd newydd ar gyfer datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan. Esboniodd y Swyddog y byddai modd cyflawni'r cynllun yma, yn yr achos gyntaf, trwy drin yr adeilad newydd (a fyddai'n cael ei adeiladu gan y datblygwyr tai) yn estyniad o'r ddarpariaeth ddwyieithog gyfredol yn Ysgol Gynradd Dolau.

Aeth y Swyddog ymlaen i esbonio bod agor darpariaeth ysgol newydd ar gyfer Llanilid ar ffurf estyniad o Ysgol Gynradd Dolau, yn hytrach na

sefydlu ysgol newydd sbon yn yr achos gyntaf, er lles y disgyblion a fyddai'n mynd i'r ysgol a'r staff a fyddai'n gweithio yno. Byddai modd i'r garfan arweinyddiaeth sydd yn Ysgol Dolau ar hyn o bryd, sy'n garfan lwyddiannus iawn yn ôl Estyn, sefydlu'r ddarpariaeth newydd gan sicrhau ei bod hi o'r un safon â'r hyn sy'n cael ei chynnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Cynigodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ynglŷn â'r cynigion, gan ychwanegu bod y cynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd ar gyfer y datblygiad tai newydd yn ddarpariaeth angenrheidiol a oedd angen cael ei chymeradwyo. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at safonau uchel Ysgol Gynradd Dolau a'r dull synhwyrol i fwrw ymlaen â'r cynlluniau.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R Turner am yr eitem yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Cychwyn y broses ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig penodol i sefydlu darpariaeth addysg gynradd newydd ar gyfer y datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan.

### **33 PARHAU I WELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN RHONDDA CYNON TAF**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fanylion i'r Aelodau ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn ogystal â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y cyllid yma:

- Buddsoddi £2.595miliwn er mwyn gwella adeiladau ysgol 4 ysgol gynradd;
- Buddsoddi £1.384miliwn er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babanod trwy gyflogi staff ychwanegol mewn 6 ysgol gynradd.
- 

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y Cyngor wedi cael ei wahodd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2017 i gyflwyno cais am grant ac achos busnes er mwyn gwneud cais am gyllid i leihau maint dosbarthiadau babanod ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr bod yna ddwy elfen i'r cyllid yma; cyllid refeniw er mwyn cyflogi staff ychwanegol a chyllid cyfalaf er mwyn adeiladu ystafelloedd dosbarth newydd mewn ysgolion sydd ag ychydig, neu sydd heb gapasiti dros ben, ar gyfer agor ystafelloedd ychwanegol.

Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, esboniodd y Cyfarwyddwr i Aelodau bod cais y Cyngor am gyllid wedi bod yn llwyddiannus. Aeth hi ymlaen i enwi'r ysgolion a fydd yn elwa o'r buddsoddiad yma, sef Ysgol Gynradd y

Gelli; Ysgol Gynradd Llanharan; Ysgol Gynradd Parc Lewis; Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith, Ysgol Gynradd Pen-y-waun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.

Manteisiodd y Swyddog ar y cyfle i rannu rhagor o fanylion ynglŷn â'r buddsoddiad pellach ar gyfer Ysgol Gynradd Ffynnon Taf trwy'r rhaglen Seilwaith Cymunedol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes y buddsoddiad yma a'r cyfleoedd sydd ar y gweill o ganlyniad i'r buddsoddiad, gan gynnwys rhagor o staff, manau addysgu ychwanegol ac adeiladau parhaol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg y buddsoddiad hefyd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad mewn perthynas â'r grant i leihau maint dosbarthiadau i fabanod.
2. Nodi bod y Cyngor wedi derbyn cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £1.6miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y fenter yma.
3. Nodi bod y Cyngor wedi derbyn cyllid refeniw ychwanegol gwerth £1.384miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y fenter yma.
4. Cynnwys y tri chynllun sydd wedi'u cyllido gan grant ac sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4.5 yn y rhaglen gyfalaf.
5. Cynnwys y buddsoddiad gwerth £995,000 ar gyfer Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn y rhaglen gyfalaf.
6. Cymeradwyo rhyddhau £395,000 o gyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol a'i chyfrannu tuag at y £995,000 sydd ei hangen i gyflawni gwaith gwella'r ysgol yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf.

(**Nodwch** Roedd y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol R Bevan a G Hopkins wedi gwneud datganiadau o fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem yma, fel sydd wedi'u nodi yng nghofnod 29. Arhosodd y Cyngorwyr yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod a phan gafodd y bleidlais ei chynnal.)

## **34 PARTNERIAETH Â CHOLEG YR IWERYDD (COLEGAU UNEDIG Y BYD)**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant adroddiad i'r Aelodau a oedd yn amlinellu cyfle i archwilio partneriaeth posibl rhwng ysgolion a dysgwyr yn Rhondda Cynon Taf a Choleg yr Iwerydd (Colegau Unedig y Byd).

Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y Coleg yn bwriadu canolbwyntio ar

gryfhau ei raglen estyn allan i gefnogi myfyrwyr sy'n dod o gefndir difreintiedig yn y Deyrnas Unedig ac yn benodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn gwneud hyn er mwyn lledu effaith y Coleg ac i gymhwyso ei athroniaeth a'i ethos addysgol unigryw yn ehangach. Aeth ymlaen i ychwanegu bod uwch swyddogion y Coleg wedi cysylltu â'r Cyngor er mwyn archwilio'r potensial ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y modd yma. Esboniodd y Cyfarwyddwr y sail resymegol dros gymeradwyo'r cynnig i weithio mewn partneriaeth yn y modd yma a'r cyfle i wella cyfleoedd ein dysgwyr yn RhCT.

Cynigodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau cadarnhaol ar y cyfleoedd y mae'r cynigion yma'n eu cyflwyno ar gyfer yr ymgeisydd cywir yn Rhondda Cynon Taf. Croesawodd yr Aelod y broses dewis a dethol 12 mis. Tynnodd yr Aelod o'r Cabinet sylw at ei phryderon mewn perthynas â'r gofal bugeiliol sy'n cael ei gynnig i bobl ifainc yn ystod cyfnodau o wyliau ysgol. Aeth y Cyfarwyddwr ati i dawelu meddwl Aelodau gan esbonio bod cynllun gofal bugeiliol yn cael ei gynnig i bob dysgwr ar bob adeg.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y fenter yma, a siaradodd mewn modd cadarnhaol ynglŷn â'r cysylltiadau yma. Manteisiodd ar y cyfle i roi gwybod y bydd hi a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ymweld â'r coleg yn y dyfodol agos.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Bydd Swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg yr Iwerydd (Colegau Unedig y Byd) i greu cysylltiadau ag ysgolion yn RhCT er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael.
2. Bydd Swyddogion y Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau i Blant yn gweithio gyda'r coleg er mwyn nodi ymgeiswyr addas.
3. Bydd adroddiad pellach yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Cabinet i roi gwybod am gynnydd y gwaith yma ar ôl 12 mis.

**35**

## **YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETH MEITHRINFYDD ORIAU DYDD Y MAE'R CYNGOR YN EI CHYNNAL**

Rhannodd Pennaeth y Gwasanaethau Llesiant a Chydnerth y Gymuned ddeilliannau'r ymgynghoriad a gafodd ei gychwyn gan y Cabinet mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth y Feithrinfa Oriau Dydd, sy'n cael ei chynnal gan y Cyngor, yn Ynyscynon.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa o'r adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai 2018. Roedd yr adroddiad yma mewn perthynas â'r cynnig i roi'r gorau i gynnig darpariaeth gofal plant anstatudol y codir tal ar ei

chyfer yn Ynyscynon a darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg yn unig. (Cafodd hyn ei gynnig oherwydd nad oes un o'r plant sydd wedi'u cofrestru yn y feithrinfa'n talu am eu lle). Adolygu ac ad-drefnu contractau ac amserlenni gwaith presennol y staff ym Meithrinfa Oriau Dydd Ynyscynon i sicrhau nad yw adnoddau yn cael eu gwastraffu a bod y gwasanaeth yn un hyblyg. O wneud hyn, bydd staff ar gael i gymryd 32 o blant Dechrau'n Deg. (Cafodd hyn ei gynnig oherwydd bod mwy o aelodau o staff na sydd eu hangen ar hyn o bryd i gynnal darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig.)

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaeth Llesiant a Chydnerth y Gymuned at y broses ymgynghori pedair wythnos wedi'i thargedu a gafodd ei chynnal mewn perthynas â'r cynigion yn ogystal â'r adborth a gafodd ei gyflwyno, fel sydd wedi'i nodi yn adran pump o'r adroddiad. Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod cyfanswm o bedwar person wedi ymateb a chwblhau'r holiadur ar-lein a bod tri unigolyn wedi dod i'r achlysur ymgysylltu.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc at yr ymateb i'r ymgynghoriad. Ychwanegodd ei bod hi wedi ystyried pob ymateb a gafodd ei gyflwyno. Gan ddweud hynny doedd dim sylwadau wedi cael eu cyflwyno a oedd yn nodi bod yna alw ar hyn o bryd neu y bydd galw yn y dyfodol am ddarpariaeth gofal plant 'â thâl' sy'n cael ei chynnal gan y Cyngor yn yr ardal.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y sail resymegol ar gyfer y cynigion yna, gan ddweud bod y newidiadau i ddarpariaeth y Feithrinfa Oriau Dydd yn cynnig y cyfle i ddod o hyd i leoliad mwy addas ar gyfer darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Nodi'r adborth o'r cyfnod ymgynghori, fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 o'r adroddiad.
2. Mynd ati i weithredu'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth gofal plant anstatudol y codir tal ar ei chyfer yn Ynyscynon; gan gynnig esboniad ynglŷn â threfniadau staffio; a chynyddu nifer y lleoedd Dechrau'n Deg o 27 i 32.
3. Gofyn i Swyddogion ddechrau chwilio am leoliad amgen mwy priodol i ddarparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant grynodedig o'r adroddiad i'r Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno adborth o ymgynghoriad ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i drefniadau'r Cyngor o ran codi tâl am ofal cymdeithasol i

oedolion nad yw'n breswyl sy'n ymwneud â gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gyfadran at ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i'r tâl uchaf y mae modd i Awdurdod Lleol ei godi ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion nad yw'n breswyl. Bydd y newidiadau yma'n dod i rym o 9 Ebrill 2018.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai'r Cyngor yn arbed rhwng £0.070miliwn a £0.100miliwn y flwyddyn yn rhan o Gynllun Cyllid Tymor Canolig y Cyngor pe byddai'r cynnig yma ar gyfer yn cael ei weithredu. Serch hynny, ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gyfadran bod yr ymgynghoriad wedi cadarnhau'r effaith bosibl ar bobl anabl a phobl hŷn pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo. I grynhoi, teimlwyd bod y cynnig yn cael effaith ariannol negyddol ar y rheiny sy'n derbyn gofal o ran gwariant sy'n ymwneud ag anabledd ac o ran ansawdd bywyd.

Cynigodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Oedolion a'r Gymraeg sylw ar adborth yr ymgynghoriad a'r effaith negyddol y byddai penderfyniad o'r math yma yn ei chael ar breswylwyr y Fwrdeistref Sirol. Croesawodd y cynnig i beidio â newid lefel y diystyrion dewisol ychwanegol sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn perthynas â gwariant sy'n ymwneud ag anabledd.

Cynigodd Arweinydd y Cyngor sylw ar yr adroddiad gan ychwanegu y byddai'r effaith ar breswylwyr llawer yn fwy na'r arbedion y mae modd eu gwneud. O ran diwygiadau Llywodraeth Cymru, ychwanegodd yr Arweinydd mai Rhondda Cynon Taf yw'r unig Awdurdod i oedi wrth roi'r diwygiadau ar waith.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Fydd dim newid i lefel y diystyrion dewisol ychwanegol sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn perthynas â gwariant sy'n ymwneud ag anabledd;
2. Nodi diwygiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r uchafswm y mae modd i Awdurdod Lleol ei godi ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion nad yw'n breswyl. Ers mis Ebrill 2018, mae hyn wedi cynyddu o £70 yr wythnos i £80 yr wythnos. Bydd hyn yn cael ei weithredu o 1 Hydref 2018 (gweler paragraff 6 yr adroddiad) yn hytrach nag Ebrill 2018 er mwyn osgoi cyflwyno dau gynnydd o fewn 6 mis.

## **37 YMGYNGHORIAD LLYFRGELLOEDD TEITHIOL**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod i Aelodau am yr adborth a ddaeth i law o'r ymgynghoriad a gafodd ei roi ar waith gan y Cabinet mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Teithiol.



Cafodd Aelodau eu hatgoffa am y cynigion a gafodd eu trafod yn ystod cyfarfod o'r Cabinet a gafodd ei gynnal ar 22 Mawrth, 2018 a'r broses ymgynghori a gafodd ei chynnal rhwng 8 Mai a 3 Gorffennaf 2018. Cafodd 389 o holiaduron eu dychwelyd. Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned drosolwg o'r adborth a gafodd ei gyflwyno, a hefyd rhoddodd wybod am ddatblygiadau diweddar o ran y gwasanaeth mewn perthynas â phrynu dau gerbyd newydd yn dilyn dirywiad sylweddol pellach cerbydau'r llyfrgell ers i'r adroddiad diwethaf gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol at y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan nodi ei fod yn wasanaeth gwerthfawr. Dywedodd fod angen adolygu'r gwasanaeth wrth fynd ymlaen, oherwydd bod nifer y cwsmeriaid yn gostwng a chost cynnal a chadw'r cerbydau. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod adolygiad o'r fath yma'n rhoi'r cyfle i ni edrych ar hyfywedd a chynaliadwyedd y gwasanaeth wrth symud ymlaen a'r cyfle i gydweithio a rhyngweithio â gwasanaethau eraill. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y @GwasanaethLlyfrgellCartref. Ychwanegodd y byddai modd i 100-130 cwsmer ychwanegol fanteisio ar y gwasanaeth heb orfod cynnig adnoddau ychwanegol. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet trwy ychwanegu y byddai symud ymlaen â'r cynnig yn sicrhau bod y Cyngor yn buddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at lyfrgelloedd eraill sy'n derbyn cymorth yr Awdurdod, yn ogystal â'r ddarpariaeth deithiol. Ychwanegodd yr Arweinydd bod lefel y ddarpariaeth yn uwch na'r hyn sy'n cael ei chynnig gan Awdurdodau Lleol eraill. Ychwanegodd y byddai'r cynigion mewn perthynas â gwneud arosiadau hirach yn golygu y byddai arosiadau mwy ystyrlon yn cael eu darparu.

Dangosodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol gefnogaeth ar gyfer y cynigion, a gwnaeth sylw am lyfrgelloedd mewn ysgolion sy'n derbyn cymorth gan yr Awdurdod. Ychwanegodd y byddai preswylwyr yr Awdurdod yn croesawu'r cyfleusterau WiFi a'r cynnydd o ran cyfleusterau digidol modern yn y cerbydau newydd yma.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Davies ar yr eitem yma, ac ymatebodd y Swyddogion iddo.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad ymgynghori (sydd ynghlwm yn atodiad 1 o'r adroddiad), sy'n cynnwys manylion gohebiaeth a gafodd ei derbyn yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau o'r gwahanol gyfarfodydd a gafodd eu cynnal.
2. Rhoi'r newidiadau arfaethedig a oedd yn destun yr ymgynghoriad ar waith:

- a) Lleihau nifer y cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol o 3 i 2.
- b) Buddsoddi mewn dau gerbyd pwrpasol newydd, sy'n cynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cerbydau presennol, sef cysylltiad di-wifr. Byddan nhw hefyd yn addas ar gyfer darparu gwybodaeth gan wasanaethau eraill y Cyngor.
- c) Newid y dull o gynnig gwasanaeth o 393 o arosiadau byr bob pythefnos i 48 arhosiad hirach bob tair wythnos a fyddai'n galluogi'r gwasanaeth i ehangu ystod y ddarpariaeth sydd ar gael ar y cerbydau.
- d) Ymestyn cwmpas mynediad, ynghyd ag ail-frandio'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Bobl sy'n Gaeth i'w Cartrefi i'r @GwasanaethLlyfrgellCartref.

### **38 RHAGLEN WAITH Y CABINET 2018-19**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol ddrafft o'r rhaglen waith ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018-19 i Aelodau o'r Cabinet. Mae'r rhaglen waith yma'n cynnwys y materion sydd angen cael eu trafod gan y Cabinet. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod gwneud defnydd o'r rhaglen yn rhoi cymorth i natur agored y broses o wneud penderfyniadau, a'i bod hi'n rhoi mwy o gyfle ar gyfer Craffu Ymlaen Llaw.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y bydd yr eitemau a gafodd eu cytuno gan Aelodau yn gynharach yn ystod y cyfarfod yn cael eu hychwanegu i'r rhaglen waith wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd y bydd cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu ar gyfer 3 Hydref oherwydd swm y gwaith sy'n dod i law.

Cyfeiriodd Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai at y ddau ddiwygiad i'r rhaglen waith mewn perthynas ag achlysuron Canol Tref adeg y Nadolig a'r strategaeth eiddo gwag.

#### **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Rhaglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

### **39 ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR (CHWARTER 1)**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol grynodedb i'r Aelodau

am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2018), o ran materion ariannol a gweithredol.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er mwyn yr Aelodau.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor ac, ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

#### **Refeniw**

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 30 Mehefin 2018 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).
2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol), sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

#### **Cyfalaf**

3. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 30 Mehefin 2018 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
4. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 30 Mehefin 2018 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

#### **Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol**

5. Nodi sefyllfa chwarter 1 ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad) a chymharu targedau 2018/19 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol).

#### **40 NODWCH ER GWYBODAETH: DERBYN DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2018-19**

Nododd yr Aelodau y Cynllun Dirprwyo Arweinwyr ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm

Cllr A Morgan  
Cadeirydd.

